# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 12ed Mehefin 2023

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Dafydd Williams, Sian Parri, Chris Brady, Deio Williams, Henry Hughes, Catrin Williams, John Davies, Sioned Pearson.

Ymddiheuriadau: Alan Hughes

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
    a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (Hysbysfwrdd) –** Bydd y Clerc yn symund ymlaen hefo'r saer lleol.
    b. **Tir Garnfadryn-** Daeth dim ymateb gan y tenant, bydd y Clerc yn anfon llythyr ati eto gan ofyn iddi gysylltu i drafod y rhent.
    c. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Cafodd y Clerc sgwrs hefo Hugh O'Donnell, dywedodd fod pris tir yn ardal Tudweiliog oddeutu £10000 yr acer. Bydd Hugh yn anfon cynllun o'r cae, i'r Cyngor Cymuned wedyn nodi faint o ddarn y bwriedir ei ddefnyddio – yna daw yn ol hefo amcan bris. Yn y cyfamser bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir i geisio cael Swyddog ddod allan i roi barn ar y bwriad, os nad fydd hynny'n bosib yna cyflwyno cais cynllunio.

    **ch**. **Diffib Tudweiliog –** Erbyn hyn mae'r Diffib wedi cyrraedd ac yn ei le. Bydd cyfrifoldeb cofrestru'r Diddib yn cael ei gyflwyno i denant siop y post.

    d**. Arosfan Bws i Dinas –** Cynigiodd pwyllgor y Dinasyddion y dda cael arosfan wedi ei osod ar y darn gwyrdd ple mae'r hysbysfwrdd a mainc goffa Mrs Elaine Davies, gyda'r syniad

i'r arosfan gael ei osod o amgylch y fainc. Y teimlad gan y Cynghorwyr Cymuned oedd na fyddai hyn yn gweithio nac ychwaith yn addas – bydd y Clerc yn pasio'r neges i bwyllgor y Dinasyddion.

dd. **Arwyddo Sieciau** – Daeth sawl Cynghorydd a'r ffurflen yn ol, bydd y Clerc yn symud ymlaen i'w ychwanegu I rest o'r rhai sy'n arwyddo.

e. **Cyflwr lon Porthcolmon** – Derbynnwyd ymateb gan yr adran priffyrdd yn nodi fod y ffordd wedi ei harchwylio ym mis Mai 2023 a bod y tyllau gwaethaf wedi cael eu llenwi. Daeth ym amlwg fod y ffordd yn is na llawer o adwyon tai a caeau/traciau ac orherwydd ni ellir pwyntio allan prif reswm fod dwr yn llifo o un adwy yn benodol. Nodwyd hefyd y bydd gwaith sodlu a ffosio ar y ffordd yn cael ei wneud pan fydd adnoddau'n caniatau.

f. **Symud lleoliad i gynnal cyfarfodydd y Cyngor Cymuned**- Penderfynnwyd mai'r ffordd orau a thecaf fyddai symud lleoliad o fewn y ward pob mis, felly o mis Gorffennaf ymlaen byddwn yn cyfarfod yng Nghapel Tudweiliog, Festri Capel Dinas, Festri Garnfadryn , Canolfan Llaniestyn a Canolfan Llangwnnadl.

4. Yn ystod ail hanner y cyfarfod, gadawodd y Cadeirydd y gadair, a chroesawyd y Cadeirydd newydd Henry Hughes. Diolch i Gareth Jones am ei waith dros y flwyddyn diwethad. Etholwyd Catrin Williams yn Is Gadeiryddd.

5. Gohebiaeth:

a. **Penodi Cyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol** – Cadarnhawyd gan y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr penodi.

b. **Cyflog y Clerc –** Derbyniodd y Clerc hawl i'w dalu. Trafodwyd cyflog y Clerc a penderfynnwyd codi'r taliad misol i £125.00 yn weithredol o mis Mehefin ymlaen.

c. **Cynllun Peilot Dwyfor –** Derbynnwyd ebost gan Catrin Huws yn rhoi diweddariad o'r cynllun. Penderfynnwyd wahodd y swyddog i'n cyfarfod wyneb yn wyneb i gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Prynu Cartrefi Gwynedd.

Ch. **Rhannu Cartrefi Gwynedd** – Derbynnwyd gwybodaeth am y bwriad i drealu Cynllun Rhannu Cartrefi gan y Cyngor Sir I geisio datrus yr heriau o unigrwydd, cartrefi fforddiadwy o fewn Gwynedd.

d. **Cais Cynllunio C23/0391/46/LL Moel y Berth** – Trafodwyd y cais a penderfynnwyd tynnu sylw'r adran gynllunio at y ganran tai gwyliau o fewn yr ardal.

6. **Unrhyw fater arall-**

a/ Derbynwyd llythyr gan Meryl Davies ar ran y Dinasyddion yn datgan pryder yr ardal yn dilyn gosod nifer o bolion arwyddion ffordd drwy'r pentref – tybir mai arwyddion rheoli cyflymder fydd rhain. Mae'r pentref yn croesawu'r bwriad ond nid lleoliadau'r arwyddion, bydd y Clerc yn anfon y pryder ymlaen i'r adran Priffyrdd.

b/ Derbynnwyd cais ariannol i helpu'r ardaloedd o fewn ward Tudweiliog i harddu'r ardaoloedd cyn ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mis Awst – penderfynnwyd rhoi £100.00 i'r 4 adra.

c/ Cafwyd cwyn fod gwelediad wrth droi I gyfeiriad Nefyn yng nghyffordd ger fferm Garlan yn Dinas yn annodd iawn oherwydd tyfiant – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 10ed Gorffennad 2023 am 7.30yh
Yn Festri Capel Tudweiliog.